# CBAC Polisi Diogelu

**Datganiad Polisi**

Mae CBAC wedi ymrwymo i roi'r safonau uchaf ar waith wrth ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl. Mae CBAC yn gweithio ar sail yr egwyddor mai cyfrifoldeb holl aelodau'r bwrdd, y gweithwyr a'r sawl a benodir, fel arholwyr a safonwyr, yw diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed rhag niwed.

Diffinnir 'Diogelu' a hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed fel:

- Diogelu unigolion rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Atal amharu ar iechyd a datblygiad
- Sicrhau bod plant yn tyfu mewn amgylchiadau sy'n gyson â'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiole

… er mwyn eu galluogi i gael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.

**Egwyddorion y Polisi**

Mae CBAC wedi cynnal asesiad risg ac wedi datblygu egwyddorion a chamau gweithredu yn seiliedig ar yr adolygiad o risg. Wrth wraidd y polisi mae gweithdrefnau diogelu mewnol manwl CBAC.

**Ein hegwyddorion allweddol yw:**

**a.** Mae lles plentyn neu oedolion mewn perygl yn hollbwysig a dyma'r ffactor pwysicaf yn ein proses o wneud penderfyniadau.

**b.** Ni fydd CBAC yn rhoi niwed i unrhyw unigolyn drwy ein prosesau recriwtio. Mae CBAC yn sicrhau bod yr holl staff a phenodedigion perthnasol yn ymgymryd â gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac nad ydynt yn ymweld â chanolfannau tan mae canlyniad boddhaol wedi'i gyrraedd.

**c.** Mae CBAC yn darparu hyfforddiant a/neu gwybodaeth ategol i sicrhau bod yr holl staff a'r sawl a benodir yn deall ein gweithdrefnau diogelu a'r gofyn i adrodd am unrhyw bryderon.

**ch.** Mae CBAC yn disgwyl i'r holl weithwyr a'r sawl a benodir gadw at god ymddygiad wrth ymweld â chanolfannau.

**d.** Gofynnir i'r holl weithwyr a'r sawl a benodir i ymddwyn yn sensitif ac i gadw at gyfrinachedd llwyr wrth ymdrin â materion sy'n ymwneud â diogelu.

**dd.** Cedwir yr holl ddata a'r wybodaeth sy'n ymwneud â diogelu yn ddiogel i sicrhau cyfrinachedd bob amser yn unol â pholisi cadw data CBAC a gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Mae CBAC yn cyhoeddi Polisi Preifatrwydd data sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer rhannu gwybodaeth â chanolfannau.

**e.** Mae Bwrdd ac uwch dîm rheoli CBAC yn sicrhau bod y Weithdrefn Diogelu yn cael ei adolygu ac yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol, drwy'r adroddiadau a ddarperir yn effeithiol.

**f.** Mae CBAC yn ystyried y testunau i'w hastudio a'u perfformio yn ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dysgwr.

**ff.** Bydd Tîm Cydymffurfiaeth CBAC yn hysbysu Pennaeth y Ganolfan o bryderon ynghylch lles a diogelwch sy'n deillio o unrhyw ddatgeliadau a wnaed, a all gynnwys manylion a roddir yn eu gwaith ysgrifenedig neu arall.

## 3. Monitro ac adolygu'r polisi

Bydd y polisi'n cael ei adolygu yn flynyddol o leiaf, neu'n fwy aml os oes newid busnes sylweddol allanol neu fewnol sy'n effeithio ar y polisi.

## 4. Dogfennau Cysylltiedig

**CGC Egwyddorion ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed.**

CGC – Egwyddorion ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl. .

## 5. Gwybodaeth Bellach

Am ymholiadau ynghylch diogelu, e-bostiwch safeguarding@wjec.co.uk